AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

## Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe

Hydref 2015

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe ar gyfer y flwyddyn 2014–15

OGL © Hawlfraint y Goron 2015
WG26666 ISBN digidol 978 1 4734 4910 7

# Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015

**Awdurdod Lleol:** **Dinas a Sir Abertawe**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Abertawe wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

## 1. Crynodeb

1.1. Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd wrth weithredu'r rhaglen foderneiddio a thrawsnewid y bu'n gweithio arni dros y tair blynedd diwethaf. Mae'n cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n dod i rym yn 2016. Mae'r cyngor yn gweithio i fynd i'r afael â galwadau tymor hir drwy adeiladu model gofal cymdeithasol sy'n gynaliadwy ac o ansawdd uchel. Mae gan wasanaethau cymdeithasol weledigaeth glir sydd â chynlluniau corfforaethol a fframwaith strategol yn sail iddynt.

1.2. Nodir yr heriau'n glir yn adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol. Mae cynlluniau busnes strategol, manwl ar waith ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, ac maent yn amlinellu gwerthoedd, egwyddorion, meysydd datblygu a llwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf. Er i hyn fod yn adeg o newidiadau mawr mae'r cyngor mewn sefyllfa gref ar sail y cynnydd yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn y gwerthusiad o berfformiad a gynhaliwyd y llynedd.

1.3. Bu newidiadau sylweddol ar lefel uwch swyddog strategol a lefel tîm gweithredol, gan arwain at ad-drefnu'r strwythur a gwasanaethau yn adran gwasanaethau oedolion a phlant. Perodd hyn aflonyddwch i rai grwpiau staff, mewn cyd-destun ehangach o arbedion gwariant a chyfyngiadau cyllidebol. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i leihau effaith y newidiadau hyn ar wasanaethau dinasyddion. Trefnir gweithdy ar y cyd rhwng staff yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd er mwyn adolygu a gwerthuso'r hyn a gyflawnwyd hyd yma ac i sicrhau bod cynnydd y dyfodol yn gorwedd ar sylfaen gadarn.

1.4. Gwnaed cynnydd pellach gyda'r cynllun i wella llwybrau integredig i oedolion hŷn a chomisiynu, drwy ddatblygu tair canolfan rwydwaith leol ar gyfer timau arbenigol ar y cyd. Sefydlwyd y canolfannau lleol trwy drefniadau cyd-reoli gyda staff y bwrdd iechyd. Mae dangosyddion cynnar yn dynodi y gall pobl fod yn sicr bod eu gwasanaethau'n cael eu cyflenwi mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd

cynnydd a datblygiad y gwasanaeth yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

1.5. Mae gwasanaethau plant hefyd wedi bod yn destun newidiadau ac ailstrwythuro wrth i dimau gael eu symud i un lleoliad. Mae'r ail-fodelu hwn wedi gwella'r trefniadau "drws ffrynt" o ran rhoi dilyniant i'r cymorth a roddir gan waith cymdeithasol i blant a theuluoedd. Wrth weithio ar y cyd mewn dull cyfun o ymdrin â lles plant a diogelwch, mae'r cyngor wedi lleihau'r galw am wasanaethau statudol drwy annog model continwwm o weithio sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau ac yn hwyluso mynediad at y lefel fwyaf addas o ymyrraeth. Rhoddir pwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar, sy'n hyrwyddo gwytnwch y teulu ac adsefydliad plant yn y cartref. Mae strategaeth plant sy'n derbyn gofal diogel wedi bod yn effeithiol wrth leihau nifer y plant mewn gofal ac wedi hyrwyddo sefydlogrwydd i blant sydd yng ngofal y cyngor. Mae'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal wedi gwella gyda threfniadau cadarn ar gyfer rhianta corfforaethol.

## 2. Yr ymateb i feysydd gwella a nodwyd y llynedd

| Y maes i'w wella a nodwyd y llynedd | Cynnydd yn 2014-2015 |
|---|---|
| Trawsffurfio, moderneiddio ac integreiddio gofal cymdeithasol i oedolion.<br><br>Parhau i weithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd i ddatblygu'r rhwydweithiau cymunedol ac i weithredu fframwaith asesu integredig. | Mae gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn parhau i gael eu trawsffurfio gyda datblygiadau mewn gwasanaethau dydd i bobl ag anableddau dysgu, gofal canolraddol ac un pwynt mynediad.<br><br>Ymhlith y datblygiadau bu'r un pwynt mynediad, tair canolfan rwydwaith leol (gorllewin, canol a gogledd) a haen gofal canolraddol i ymateb yn gyflym er mwyn tywys pobl yn ôl i annibyniaeth. |
| Gwneud cynnydd wrth ailstrwythuro'r adain gomisiynu a monitro contractau yn y gwasanaethau i oedolion. | Gwnaed newidiadau o fewn gwasanaethau cymdeithasol, ac yn arbennig ym meysydd busnes a chomisiynu cymorth drwy gaffael corfforaethol. |
| Gwerthuso'r adolygiad annibynnol o wasanaethau pobl hŷn. | Comisiynodd y cyngor yr adolygiad annibynnol gan Brifysgol Caerdydd, a adroddodd ym mis Medi 2014. Mae'r gwaith o werthuso'r canfyddiadau, cytuno ar ffordd ymlaen a'i gweithredu, yn mynd rhagddo drwy ffrwd waith ar gomisiynu. |

| | |
|---|---|
| Cynnydd gyda rhaglen iechyd a gofal cymdeithasol Bae'r Gorllewin. | Llwyddodd rhaglen Bae'r Gorllewin i gyflawni cerrig milltir nodedig gyda'r bwrdd lles, byrddau diogelu rhanbarthol, y<br>gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol a gwasanaeth troseddwyr ifanc rhanbarthol er mwyn helpu i leihau cyfraddau ail-droseddu. Drwy raglen Bae'r Gorllewin mae Abertawe wedi ail-gomisiynu darparwr arbenigol, DEWIS, i helpu i ymestyn y defnydd o daliadau uniongyrchol ac i recriwtio a chefnogi gofalwyr fydd yn cael eu talu'n lleol fel cynorthwywyr personol. |
| Gwerthuso canfyddiadau'r adolygiad ar ddiogelu oedolion, a datblygu a chynnal y safonau sy'n sicrhau arferion gorau, ansawdd a threfniadau llywodraethiant. | Yn dilyn gwerthusiad o ddiogelu oedolion gwnaed gwelliannau pellach, gyda threfniadau rheoli newydd a rhagor o bwyslais ar roi'r person yng nghanol pob pryder, a rheoli eu risg yn effeithiol ac yn gyflym gyda llai o fiwrocratiaeth. |
| Cynnydd yn y gwaith o sefydlu byrddau oedolion a phlant Bae'r Gorllewin. | Dan lywodraethiant rhaglen Bae'r Gorllewin, mae byrddau rhanbarthol bellach wedi'u hen sefydlu ac yn gweithio wrth ochr y trefniadau lleol hyn. |
| Gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar | Llwyddwyd i greu strategaeth atal corfforaethol ac i ddatblygu cronfa atal er mwyn cynhyrchu prosiectau arloesol. |
| Trefniadau trosolwg a chraffu | Mae trefniadau craffu a chabinet newydd ar waith ac mae aelodau etholedig yn gweithio'n fwy agos at swyddogion. Mae gan bob panel craffu raglen waith glir o ran perfformiadau plentyn a theulu a thrawsffurfio gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. |
| Cynnydd o ran canlyniadau ac argymhellion yn yr arolygiad o blant sy'n derbyn gofal. | Mae cynllun gweithredu ar waith i dystio i'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag argymhellion yr arolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac mewn perygl.<br>. |

| | |
|---|---|
| Y cynnydd a wnaed ar sail canlyniadau ac argymhellion yr adolygiad o Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru. | Ers dyfarniad cyfreithiol nodedig Gorllewin Caer gwnaed nifer ddigyffelyb o atgyfeiriadau i'r cyngor. Rhoddwyd adnoddau newydd ar waith i reoli'r asesiadau hyn sydd heb eu cwblhau hyd yn hyn, ynghyd ag ymateb i geisiadau newydd.<br>Mae pob gweithiwr cymdeithasol oedolion wedi'u gorchymyn i gael eu hyfforddi i fod yn Aseswr Budd Pennaf. |
| Arweiniodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad i weld a oedd y cyngor yn rhoi cymorth effeithiol i bobl hŷn weithio'n annibynnol. | Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd o ran datblygiadau ym meysydd integreiddio a gofal canolraddol. Yn ôl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru cydnabyddir bod gan Abertawe ystod eang a chydbwysedd o wasanaethau ansawdd uchel er mwyn bodloni'r continwwm anghenion, o wybodaeth a chyngor i ymyrraeth. |

## 3. Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy’n defnyddio'r gwasanaethau a’u teuluoedd, a’r staff sy'n rheoli a gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, ymwelwyd â'r safleoedd canlynol:

- Tîm un pwynt mynediad
- Bonymaen House
- Gwasanaeth pontio
- Tŷ Cilâ
- Cynhadledd ymgysylltu â gofalwyr
- Digwyddiad staff gwasanaethau plant
- Paneli perfformiad ar sail craffu ar gyfer oedolion a phlant

3.2. Cymerodd AGGCC gamau dilynol mewn perthynas ag argymhellion yr arolygiad o gynlluniau diogelu a gofal y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn

gofal a phobl sy'n gadael gofal ac sy'n ymddwyn mewn ffordd fregus neu beryglus. Gofynnwyd i'r cyngor ystyried 21 o feysydd i'w gwella ymhellach. Datblygwyd y meysydd hyn wedyn yn gynllun gweithredu manwl sydd wedi cyfrannu at ddatblygiadau yn y dull o weithio.

3.3. Cynhaliodd AGGCC arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sydd wedi cael eu comisiynu gan y cyngor neu'n cael eu rheoli gan y cyngor, gan gynnwys cartrefi gofal preswyl a gwasanaeth maethu'r cyngor. Roedd yr arolygiadau'n gadarnhaol ac adroddodd arolygwyr fod y gwasanaethau'n cydymffurfio a bod y rheolwyr cofrestredig wastad yn barod i ymateb i unrhyw anhawster oedd yn codi. Ceir rhagor o fanylion amdanynt mewn adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi ar wahân ac sydd ar gael ar wefan AGGCC.

3.4. Ym mis Medi 2014 cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei hadroddiad ar drefniadau Abertawe i gefnogi plant sy'n cael eu diogelu, ar ôl cynnal archwiliad rhwng misoedd Mawrth a Mai 2014. Roedd hwn yn gadarnhaol ynglŷn â'r trefniadau diogelu a gwnaeth ond pum argymhelliad ar gyfer gwelliannau, ac mae'r cyfan yn mynd rhagddynt.

3.5. Hefyd, bu AGGCC yn cwrdd ag uwch-swyddogion y cyngor drwy gydol flwyddyn er mwyn adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ac i drafod cynnydd mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y gwerthusiad o berfformiad a gynhaliwyd y llynedd. Roedd y cyngor yn barod eu cymwynas wrth ymwneud ag AGGCC, a rhoesant wybodaeth a thystiolaeth ynglŷn â chamau dilynol pan dynnwyd eu sylw at anawsterau.

## 4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd. Bydd meysydd penodol ar gyfer camau dilynol yn cynnwys:

- Rôl cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol a newidiadau i'r uwch dîm rheoli.
- Y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r gwasanaeth yn barod ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Ymwneud y cyngor â rhaglen gydweithredol Bae'r Gorllewin ar iechyd a gofal cymdeithasol.

4.2. Bydd y gyllideb, gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, yn parhau i fod yn heriau allweddol i'r cyngor yn 2015-2016.

## 5. Cynllun arolygu ac adolygu 2015-2016

5.1. Mae AGGCC hefyd yn cynnal yr arolygiadau thematig canlynol ac efallai y bydd gwasanaethau yn Abertawe yn cael eu dewis ar gyfer gwaith maes:

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

## 6. Y graddau mae profiadau a chanlyniadau pobl sydd angen gofal a chymorth yn gwella eu lles.

**<u>Oedolion</u>**

### Trosolwg

6.1. Gall pobl gael mynediad at gyngor a chymorth gofal cymdeithasol yn brydlon, yn gyson ac yn briodol. Mae gwasanaethau'n ymatebol a thrwy eu dull integredig mae pobl yn elwa ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn lleol. Mae blaenoriaethau allweddol ar waith ym meysydd arweinyddiaeth a chapasiti trefniadol er mwyn cefnogi a chynnal y newidiadau sydd eu hangen i drawsnewid gwasanaethau i oedolion. Mae'r cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau mewn ffordd wahanol, drwy wella mynediad at gyngor, gwybodaeth a gwasanaethau ymyrraeth gynnar a/neu wasanaethau ataliol. Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wrth ddylunio a gweithredu model integredig o ofal canolraddol. Bellach, cyflenwir y gwasanaeth newydd hwn gan dri thîm lleol sy'n cwmpasu Abertawe gyfan.

6.2. Mae'r cyngor yn hyrwyddo lles drwy ddarparu gwasanaeth cyflawn o wybodaeth gyhoeddus, ynghyd â gwefan hawdd ei defnyddio ac un mynediad cryfach at y gwasanaeth. Mae hyn yn parhau i atgyfnerthu ymyrraeth gynnar ac ataliol yr adran ac yn rhoi llwybr at yr haen o ofal canolraddol. Mae system froceriaeth gofal cartref hefyd yn faes sydd yn

nhîm un pwynt mynediad. Mae galw mawr ar y gwasanaeth hwn ond mae'n parhau i fod yn ymatebol ac yn effeithiol wrth sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Mae cysylltiadau cryf â'r sector darparu preifat, gyda chyswllt ac ymwneud dyddiol. Cynyddwyd y lefel staffio yn y gwasanaeth gofal cartref/ail-alluogi i ddarparu capasiti ac i wella gwytnwch y gwasanaeth a chanlyniadau'r cwsmeriaid.

6.3. Mae'r cyngor a Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg wedi parhau i gydweithio'n agos er mwyn gwella cynlluniau strategol, datblygiadau gwasanaeth a'r model integredig o wasanaeth adfer, a hynny ledled gwasanaethau iechyd meddwl. Mae hyn yn sicrhau y cydymffurfir â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a'i fod yn cael ei weithredu drwy raglen Bae'r Gorllewin. Mae argaeledd ymarferwyr iechyd meddwl cymeradwy yn parhau i fod yn anhawster, ac mae angen i ragor o weithwyr cymdeithasol gwblhau hyfforddiant ymarferwyr iechyd meddwl cymeradwy ledled y timau iechyd meddwl cymunedol.

6.4. Mae’r cyngor yn parhau i weithredu newidiadau i wasanaethau anabledd dysgu er mwyn cyflwyno dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, yn dilyn adolygiadau diweddar yn allanol a chan raglen Bae'r Gorllewin. Mae yna dîm arbenigol newydd ar gyfer nam ar y synhwyrau, sy'n wasanaeth integredig yng nghanolfan adnoddau Swansea Vale, ac mae ganddynt fynediad uniongyrchol at adnoddau a chymorth ar gyfer pobl â nam ar y golwg a'r clyw. Mae'r gwasanaeth yn unigryw ac fe'i darperir wrth ochr asiantaethau eraill a darparwyr trydydd sector.

6.5. Adolygwyd trefniadau diogelu oedolion, y nodwyd y llynedd ei fod yn faes sydd angen ei wella. Er mwyn sicrhau bod cysondeb wrth wneud penderfyniadau ar drothwyon, bod ymatebion cynnar a bod trosolwg o'r rhyngwyneb rhwng ymarferwyr a sefydliadau partner, recriwtiwyd ar gyfer swydd newydd rheolwr gwasanaeth diogelu oedolion. Ategir y newidiadau gan bolisi corfforaethol newydd ar ddiogelu. Bellach mae pwyslais cliriach ar atal ac ar y person agored i niwed sydd yng nghanol unrhyw gamau gweithredu neu benderfyniadau a wneir. Yn 2014/2015, roedd gostyngiad bychan yn nifer yr atgyfeiriadau oedolion lle bu lleihad yn y risgiau. Mae yna raglen hyfforddi gorfforaethol yn y gwasanaeth sy'n cynnwys pecynnau e-ddysgu gorfodol ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys aelodau'r cyngor.

6.6. Profwyd y capasiti diogelu yn ddiweddar pan fethodd asiantaeth gofal cartref â chyflenwi gwasanaeth i nifer fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth dibynnol ac agored iawn i niwed. Gweithredodd y cyngor ar unwaith, gan wneud trefniadau eraill er mwyn cyflenwi gofal yn ddiogel ac mewn modd oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a leihaodd effaith y newidiadau sydyn ar bobl fregus ac agored i niwed. Gweithredwyd dull amlasiantaeth drwy gyfrwng tîm un pwynt mynediad, i sicrhau bod yr

holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel, yn derbyn gofal addas ac, mewn rhai achosion, bod rhywun yn cysylltu â nhw'n ddyddiol.

6.7. Mae arolygwyr AGGCC yn adrodd bod trefniadau diogelu wedi gwella a bod ymateb mwy prydlon a threfnus i bryderon a fynegir. Rhoddir gwybod i arolygwyr am faterion diogelu mewn lleoliadau a reoleiddir, ac fe'u gwahoddir i gyfarfodydd strategaeth diogelu oedolion. Mae effaith gynyddol ar lwyth gwaith rheolwyr tîm sy'n cyflawni rôl y rheolwr arweiniol penodedig o hyd, wrth iddynt gadeirio a rheoli pob achos diogelu oedolion. Cedwir golwg parhaus ar drefniadau diogelu oedolion, gan fod adnoddau wedi'u cyfyngu'n fawr ac mae perygl na fydd ymyrraeth amserol a chadarn mewn rhai achosion.

6.8. Mae'r cyngor wedi nodi bod dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Gorllewin Caer yn peri pryder mewn perthynas â derbyn ceisiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid gan leoliadau a reoleiddir. Cynyddodd y ceisiadau yn aruthrol, o 40 yn 2013-14 i 1116 eleni. Mae hyn wedi achosi problemau mawr i gapasiti'r gwasanaethau rheoli gofal ac wedi cael effaith ar amseroldeb adolygiadau pobl hŷn. Mae'r cyngor wedi nodi bod yn hyn yn faes sy'n peri risg ac wedi datblygu strategaeth i fynd i'r afael â'r mater. Bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei fonitro eleni.

6.9. Mae'r cyngor yn rhoi cyllid craidd i Ganolfan Gofalwyr Abertawe, sy'n cynnig ystod eang o wasanaethau cymorth am ddim i fodloni anghenion gofalwyr oedolion. Gellir cynnig asesiad anghenion i ofalwyr ynghyd â chymorth anuniongyrchol. Cynigiwyd asesiad i 95% o bobl o gymharu â 97% y flwyddyn flaenorol. Mae'r ganran o ofalwyr sy'n manteisio ar asesiadau gofalwyr wedi cynyddu o 38% y llynedd i 45% eleni, ond mae bwlch mawr o hyd rhwng faint sy'n cael cynnig asesiad a faint sy'n ei dderbyn. Cydnabuwyd bod hyn yn faes sy'n gofyn am ragor o waith a dylai'r cyngor ystyried y rhesymau dros hyn. Fel rhan o ddull rhanbarthol o weithio ac o wneud defnydd o arian sydd ar gael gan gronfa gweithredu Mesur Gofalwyr (Cymru), mae'r cyngor wedi mabwysiadu adnodd hyfforddi ar-lein ar gyfer y staff. Mae'r cwrs hwn yn galluogi staff i ddysgu am anghenion gofalwyr a sut y gallant roi cymorth iddynt. Hefyd, mae hyfforddiant sefydlu staff y cyngor yn cynnwys sesiwn benodol ar ofalwyr a rhoddir adnoddau ysgrifenedig hefyd yn y pecyn sefydlu.

6.10. Mae nifer y bobl sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol yn hytrach na derbyn gwasanaeth yn parhau i godi ar draws gwasanaethau oedolion, o 250 y flwyddyn flaenorol i 308. Mae'r nifer sy'n derbyn taliadau uniongyrchol mewn rhai grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cynyddu hefyd. Mae'r contract broceru wedi cael ei ail-dendro drwy Fae'r Gorllewin a dyfarnwyd y contract i Ganolfan Byw'n Annibynnol DEWIS. Y nod yw gwella canlyniadau pobl drwy gynyddu ansawdd y

cymorth, gan gynnwys recriwtio a meithrin cynorthwywyr personol. Bellach mae cronfa o 700 o gynorthwywyr personol yn Abertawe.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.11. Mae'r cyngor yn cydnabod y disgwyliadau a'r cyfrifoldebau a ddaw iddo yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid iechyd i gyflwyno newidiadau i ofal a ddarperir gan weithwyr cymdeithasol a thimau ar y cyd i sicrhau bod y bobl fwyaf bregus o fewn y gymuned yn parhau i gael cymorth da ac yn cyflawni gorau y gallant.

6.12. Mae Abertawe wedi sefydlu un pwynt mynediad i sicrhau bod gwasanaeth ymatebol ac effeithiol sy'n lleihau unrhyw oedi ac yn sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cael mynediad at wasanaethau canolraddol yn gyflym. Y gobaith yw bod gwella llwybrau gofal yn mynd i wella canlyniadau, ac ar yr un pryd yn helpu i atal pwysau a achosir gan gynnydd sydyn yn y galw.

6.13. Mae'r strategaeth i roi cymorth i bobl yn y cartref yn effeithiol, gydag ystod eang o wasanaethau cymunedol sy'n hanfodol wrth roi help i bobl gael cymorth yn eu cartrefi eu hunain. Gwelodd y gwasanaethau mewnol gynnydd nodedig yn y cymorth mae'n ei roi i bobl sydd angen gofal a chymorth gartref. At hyn bu cynnydd sylweddol yn narpariaeth gofal cartref yn y sector annibynnol, ac o ran cyflenwi cymhorthion ac addasiadau i bobl yn y gymuned.

6.14. Mae'r cyngor yn disgwyl i gynllun gofal pob oedolyn sy'n derbyn gwasanaeth gael ei adolygu'n flynyddol, ond mae perfformiad wedi disgyn yn ystod y flwyddyn o 81% yn 2013-2014 i 71%. Priodolir y cwymp hwn i effaith gweithgareddau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar dimau rheoli gofal, a'r newidiadau sylweddol o ran rheolaeth ac ailstrwythuro, sydd wedi cynnwys symud timau cyfan i ganolfannau lleol. Bydd hwn yn faes i'w wella eleni.

**Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth.**

6.15. Mae'r cyngor a'i bartner iechyd yn ymroddedig i gefnogi pobl sy'n gadael ysbyty i ddychwelyd adref ar ôl cyfnod o ail-alluogi. Datblygir llwybrau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod cyfnodau aros mor fyr â phosibl a bod pobl yn gallu dychwelyd adre'n ddiogel heb oedi wrth drosglwyddo gofal. Serch hynny, roedd y dangosydd ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol, am bob 1,000 o boblogaeth sydd dros 75 oed, wedi cynyddu am y tro cyntaf mewn rhai blynyddoedd o 2.85 yn 2013/2014 i 4.7. Credir bod hyn o ganlyniad i oedi a gafwyd gyda sicrhau bod gofal cartref ar gael.

6.16. Mae Bonymaen House yn enghraifft o wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol sy'n darparu canlyniadau cadarnhaol i bobl drwy gyfrwng gwasanaethau ail-alluogi. Mae cynlluniau ar gyfer gwasanaeth ail-alluogi ymatebol, sydd wedi'i integreiddio ym mhob un o'r tair canolfan leol sy'n gallu ymdrin ag argyfyngau ac atgyfeiriadau eraill mewn modd amserol, gyda'r nod o beidio â rhoi rhywun mewn ysbyty. Mae adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fesur effeithiolrwydd y gwasanaeth adsefydlu er mwyn blaenoriaethu'r cymorth cywir i'r rheiny sydd fwyaf tebygol o elwa o ymyrraeth gynnar. Mae tîm integredig Gŵyr wedi lleoli staff iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd, gan roi cymorth i fannau diarffordd y penrhyn. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i leihau oedi wrth roi gofal yn ardal Gŵyr, a lleihau'r cyfnodau diangen a dreulir mewn gwelyau mewn ysbytai aciwt yn aros am ddarpariaeth gofal.

6.17. Mae tîm integredig ar gyfer ansawdd cartrefi gofal yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae cynllun i staff iechyd a gofal cymdeithasol rannu cyfres o amcanion er mwyn rhoi cymorth i bobl mewn cartrefi gofal hefyd ar y gweill. Bu'r gwaith o ddatblygu rôl cysylltwyr cymunedol ar y gweill ers peth amser ac mae'n cynnig canolbwynt ar gyfer cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Datblygu rôl rhwydweithiau cynradd a chymunedol i leihau dyblygu ac i annog y broses o gyfuno gwasanaethau ar draws ardaloedd daearyddol er budd dinasyddion. Mae yna gysylltiadau gwell â sefydliadau trydydd sector ac mae gwybodaeth ar gael mewn meddygfeydd i helpu i gyfeirio pobl at y gwasanaeth sydd fwyaf priodol iddynt.

**Meysydd o gynnydd**

- Datblygu’r canolfannau lleol integredig
- Cynyddu dewis a rheolaeth drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol
- Partneriaethau integredig gyda'r bwrdd iechyd, sy'n mynd rhagddynt yn dda

**Meysydd i'w gwella**

- Cwblhau'r adolygiad o drefniadau diogelu
- Blaenoriaethu a rheoli ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid sydd dal heb eu cwblhau
- Adolygiadau yng ngwasanaethau oedolion sy'n amserol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau
- Cwblhau'r adolygiad o brosesau ac adnoddau rheoli gofal
- Mesur canlyniadau a gwerthuso'r cynnydd er mwyn asesu effaith canolfannau cymunedol ar bobl hŷn

**<u>Plant a phobl ifanc</u>**

**Trosolwg**

6.18. Mae gwasanaethau plant y cyngor yn darparu gwasanaeth cynaliadwy, pwrpasol i blant a theuluoedd sy'n llwyddo i wella canlyniadau i blant. Mae canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi gwella drwy gefnogi eu lles drwy gontinwwm o atal effeithiol, ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cymorth i'r teulu. Yn ogystal ag ymatebion cadarn i blant mewn angen yn lleol ac wrth y 'drws ffrynt' mae perthynas gref gyda phartneriaid craidd sy'n cydweithio'n agos i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed.

6.19. Mae'r cyngor yn gweithio i wella effeithiolrwydd a llywodraethiant y trefniadau diogelu lleol a rhanbarthol ar gyfer eu plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed. Gwellodd ansawdd a gwerth am arian y lleoliadau i blant sy’n derbyn gofal, er mwyn iddynt ymsefydlu cyn gynted â phosibl ac i hybu eu cyfleoedd mewn bywyd a'u dyheadau yn y dyfodol. Am yr ail flwyddyn maen nhw wedi cyflawni eu strategaeth gyllidebol dair blynedd o hyd, drwy gomisiynu'n effeithiol ar y cyd i gyflawni targedau a osodwyd yn y strategaeth ddiogel er lleihau'r nifer o

blant sy’n derbyn gofal. Cafodd y refeniw a arbedwyd yn sgil y dull hwn ei ail-fuddsoddi yng ngwasanaethau plant a theuluoedd er mwyn gwella'r canlyniadau i blant a theuluoedd yn Abertawe.

6.20. Yn ogystal â'r polisi diogelu corfforaethol newydd mae hefyd grŵp llywio diogelu a grŵp diogelu plant yn lleol er mwyn goruchwylio'r argymhellion gweithredu a bennwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin. Mae yna ymrwymiad corfforaethol cryf i les a diogelwch plant sy'n gysylltiedig â'r sylw amlwg a roddir i ddiogelu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r defnydd ehangach o rwydweithiau diogelwch a chynlluniau diogelwch o fewn maes amddiffyn plant ac arferion cynllunio gofal yn gwella safonau'r cymorth a roddir i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n dychwelyd adref. Ymatebir i bob atgyfeiriad amddiffyn plant yn amserol, a chynyddodd nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant o 295 y flwyddyn flaenorol i 338. Mae cyfradd y rheiny sy'n cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn unol â’r cynnydd hwn. Mae gostyngiad bychan yn y perfformiad gogyfer ag ymholiadau Adran 47 ond gwelwyd cynnydd yn y perfformiad gogyfer â chyfarfodydd strategaeth, cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol ac adolygiadau amddiffyn plant.

6.21. Mae polisi diogelu ar waith, ynghyd â hyfforddiant gorfodol ar gyfer holl staff y cyngor iddynt ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau wrth atgyfeirio pryderon am blant bregus. Mae monitro ac adrodd yn digwydd yn bennaf drwy gyfrwng adroddiad ar berfformiad misol gwasanaethau plant, sy'n cael ei roi'n chwarterol i'r uwch-dîm rheoli, tîm rheoli'r gyfarwyddiaeth, y bwrdd craffu a'r bwrdd gweithredol. Mae AGGCC wedi mynychu sesiynau craffu lle rhoddir gwybodaeth am berfformiad ac wedi bod yn dyst i gadernid yr her a roddir gan aelodau etholedig.

6.22. Bu dirywiad bach mewn perfformiad ar sail y dangosyddion allweddol, sy'n siomedig i'r cyngor o ystyried ei fodel *Signs of Safety* a'i ymyrraeth gynyddol gyda phlant a theuluoedd. Wrth gynnal asesiadau cychwynnol o fewn saith diwrnod gwaith, mae'r perfformiad wedi disgyn o 91% o achosion yn y flwyddyn flaenorol i 90% ar hyn o bryd. Cwblhawyd yr achosion sy'n weddill o fewn 12 diwrnod ar gyfartaledd. Bu gostyngiad hefyd yng nghanran y plant a welwyd gan weithiwr cymdeithasol cymwysedig, o 83% i 80%. Bu cwymp hefyd yn nifer y plant a welwyd yn unigol fel rhan o asesiad cychwynnol, o 42% o achosion yn y flwyddyn flaenorol i 38%. Trafodwyd y gostyngiad hwn gyda'r swyddogion priodol ac maen nhw'n cadw llygad ar y gostyngiad hwn mewn perfformiad, ac maen nhw'n bwrw ati i wella amseroldeb yr asesiadau.

6.23. Gwneir pob asesiad am fewnbwn gofal cymdeithasol, ar wahân i blant ag anabledd neu bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu, gan un o'r

pum tîm lleol. Bu pwyslais cryfach yn y timau lleol ar asesiadau cychwynnol a gwaith amddiffyn plant, a wnaed ynghynt gan y tîm drws ffrynt, sy'n dwyn yr enw Model Abertawe erbyn hyn. Dylid cwblhau asesiadau craidd o anghenion o fewn 35 diwrnod gwaith, gan amlaf. Mae perfformiad wedi cwympo'n sylweddol o 81% yn y flwyddyn flaenorol i 68%. Pan drafodwyd y maes hwn â'r cyngor fe briodolwyd y gostyngiad i effeithiau llwythi gwaith ychwanegol ar y timau wrth iddynt reoli llwybr cyfan y plentyn yn dilyn atgyfeiriad. Er bod y dull hwn yn sicrhau bod dilyniant gwell o ran gweithwyr cymdeithasol pob plentyn mewn angen, mae angen i'r cyngor fod yn wyliadwrus o'r peryglon posibl i blant a theuluoedd. Mae hwn yn faes y bydd angen ei drafod eto gydag uwch swyddogion yn y flwyddyn i ddod.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.24. Mae'r cyngor yn datblygu "continwwm anghenion" i roi strwythur i'r broses asesu a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd. Mae hwn yn ddull sy'n seiliedig ar risg ac sy'n gweddu'n dda i fodel *Signs of Safety,* sy'n sail i arferion gwaith. Mae’r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid ym meysydd iechyd ac addysg i ddatblygu model cyson a chymesur o arferion lle mae pawb yn deall ei rôl a'i gyfrifoldeb wrth gefnogi plant agored i niwed a'u teuluoedd. Y nod yw bod y gweithiwr proffesiynol priodol yn rhoi'r lefel gywir o gefnogaeth i deuluoedd yn ddigon cynnar er mwyn atal anawsterau rhag dwysáu ac i atal atgyfeiriadau amhriodol am fewnbwn statudol, ffurfiol gan wasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn berthnasol pan fyddai lefel is o gymorth, cefnogaeth neu wybodaeth yn bodloni'r angen mewn ffordd fwy cymesur a grymusol.

6.25. Mae'r cyngor wedi rhoi pwyslais ar ddatblygu dull "drws ffrynt cynnes" gyda'u Tîm o Amgylch y Teulu. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol i sicrhau bod y trothwyon cywir ar waith er mwyn ategu trefniadau "cam i fyny a cham i lawr" amserol sy'n diwallu anghenion plant a theuluoedd. Mae nifer yr achosion 'plant mewn angen' sydd ar agor yn cael eu hadolygu i sicrhau bod unrhyw gam gweithredu dal yn angenrheidiol ac yn gymesur ar gyfer pob plentyn, ac i ystyried p'un a oes angen cymryd unrhyw gam arall.


6.26. Mae'r cyngor wrthi'n adolygu lle mae arni ar ei siwrnai o ddefnyddio *Signs of Safety* fel model ar gyfer arferion. Mae holl dimau'r gwasanaethau plant yn defnyddio'r model hwn sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, ac mae bwriad i ddechrau cyflwyno fersiwn ddiwygiedig ohono gyda thimau gwasanaethau oedolion, gan ddechrau gyda chynadledda grŵp i deuluoedd.

6.27. Adolygwyd trefniadau pontio hefyd ac mae'r trefniadau gwaith lawer yn nes rhwng y tîm plant a'r tîm oedolion, ac iddynt lwybrau clir ar gyfer cyfathrebu ac atebolrwydd. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cynllunio'n gynnar er mwyn diwallu anghenion plant sydd ag anabledd ac a fydd angen help a chymorth pan fyddant yn oedolion. Mae gan oedolion sydd angen cymorth nawr ac yn y dyfodol ddisgwyliadau a dyheadau gwahanol iawn i'r hyn a gynigir gan wasanaethau mwy traddodiadol. Mae'r cyngor yn cydnabod yr her wrth newid o ddiwylliant sy'n seilio darpariaeth ar adeiladau i ffurfiau mwy hyblyg o roi gofal a chymorth sy'n hybu annibyniaeth a hunanreolaeth.

**Plant sy'n derbyn gofal**

6.28. Mae'r cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid mewn addysg, gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd, tai, iechyd meddwl, cynorthwyo pobl, gyrfaoedd a chamddefnyddio sylweddau er mwyn gwella'r canlyniadau y dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal eu disgwyl. Ar y cyd maen nhw'n gweithio tuag at yr amcanion a chanlyniadau diogelwch. Caiff cynlluniau gofal a chymorth yr holl blant sy'n derbyn gofal eu hadolygu gan swyddogion adolygu annibynnol. Mae'r swyddogion hyn yn darparu trefn annibynnol o sicrhau ansawdd ac mae'r uwch reolwyr yn darparu adroddiadau monitro rheolaidd i'r cabinet ac at ddibenion craffu.

6.29. Mae strategaeth ddiogel y cyngor er lleihau nifer y plant sy’n derbyn gofal, nid yn unig yn lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal o flwyddyn i flwyddyn ond hefyd wedi cyfrannu at wneud arbedion angenrheidiol i'r gyllideb gyffredinol.



6.30. Disgynnodd nifer y plant sy'n derbyn gofal o 588 yn 2012/2013 i 539 yn 2013/2014, a bellach mae wedi gostwng ymhellach i 511.

6.31. Mae aelodau etholedig yn cyflawni eu swyddogaeth rhianta corfforaethol mewn amryw o ffyrdd. Maen nhw'n pwyso a mesur y data perfformiad a gweithgarwch diweddaraf mewn cyfarfodydd rhianta corfforaethol chwarterol, yn edrych ar ddatblygiadau newydd yn y gwasanaeth, ac yn bwysicaf oll, yn derbyn barn y plant a'r bobl ifanc eu hunain drwy gyfrwng adborth cyfranogiad, storïau digidol neu ymweliadau â lleoliadau.

6.32. Mae'r adolygiad gorffenedig o sefydlogrwydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth sefydlogrwydd yn Abertawe. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo prydlondeb wrth gyflwyno gorchmynion gofal, gyda'r nod y bydd hyn yn garreg filltir tuag at ganlyniadau cadarnhaol yn hytrach nag yn ddiweddglo. Bydd hefyd yn rhoi hwb i sefydlu cyfres newydd o drefniadau a fydd yn rhoi'r gefnogaeth orau i blant sy'n destun gorchmynion gwarchodaeth arbennig, sydd wedi dyblu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd yn gweithio i wella ansawdd a gwerth am arian y lleoliadau er mwyn i blant sy'n derbyn gofal gael sefydlogrwydd cyn gynted â phosibl, ac i hybu eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae cyfradd y paru llwyddiannus ar gyfer mabwysiadu yn cyd-fynd â chyfradd y gorchmynion lleoli newydd sy'n cael eu dyfarnu, ac felly mae gweithgarwch yn cael ei gynnal.

6.33. Mae canran y plant a oedd â mwy na thri lleoliad wedi cynyddu. Mae'r cyngor yn cydnabod y broblem hon ac yn parhau i ddatblygu capasiti a sgiliau rhieni maeth er mwyn cynorthwyo'r plant a phobl ifanc hynny sydd mewn perygl o fethu yn y lleoliad. Yn ogystal, mae'r tîm lleoli a theuluoedd yn darparu mwy o gymorth i ofalwyr maeth, gan gynnwys cymorth y tu allan i oriau.

6.34. Mae systemau sydd wedi'u hen sefydlu ar waith er mwyn cywain barn plant a phobl ifanc agored i niwed sydd mewn angen. Defnyddir y safbwyntiau hyn i wneud gwahaniaeth i'r gwasanaeth maen nhw ac eraill yn ei dderbyn. Mae'r cyngor yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu'n rheolaidd lle gall plant a theuluoedd gyfrannu ac ymwneud â staff er mwyn llywio agenda'r cynllun busnes. Bu AGGCC yn bresennol mewn digwyddiad staff lle gwelwyd storïau digidol ar waith, a gwelwyd mor effeithiol yw gwrando ar farn y plentyn wrth lywio arferion gwaith cymdeithasol.

**Meysydd o gynnydd**

- Cydbwyso'r gyllideb am yr ail flwyddyn yn olynol
- Gweithlu sefydlog - dim staff asiantaeth.

**Meysydd i'w gwella**

- Amseroldeb asesiadau craidd, er mwyn cynnwys gweld plant ar eu pen eu hunain
- Datblygu'r continwwm anghenion er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol
- Monitro faint o blant sydd wedi symud i fwy na thri lleoliad, a gweithio gyda gofalwyr maeth er mwyn cefnogi sefydlogrwydd ac i atal lleoliadau rhag methu.

**7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiant ac arweiniad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth.**

7.1. Yn y flwyddyn ddiwethaf bu newidiadau sylweddol o fewn yr uwch dîm rheoli. Mae trefniadau rheoli interim ar waith ar gyfer prif swyddog gwasanaethau cymdeithasol a phennaeth gwasanaethau plant a theulu. Hefyd, penodwyd yn llwyddiannus i swydd pennaeth gwasanaethau oedolion. Er y risg sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r math hyn, mae'r cyngor wedi parhau i wneud cynnydd wrth drawsnewid, ailstrwythuro ac integreiddio gwasanaethau. Mae pobl brofiadol yn y swyddi ac maen nhw'n ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy ac yn rhoi dewis ac annibyniaeth i bobl. Mae'r prif swyddog gwasanaethau cymdeithasol yn aelod o'r tîm rheoli corfforaethol ac yn cael cefnogaeth glòs gan gyfarwyddwr corfforaethol pobl. Mae ganddo fynediad uniongyrchol at y prif weithredwr ac uwch-aelodau etholedig y cyngor.

7.2. Mae trefn glir gan y cyngor ar gyfer dal aelodau cabinet i gyfrif, ac mae gan bob aelod bortffolio o gyfrifoldebau dros feysydd penodol o waith y cyngor. Mae'r cyngor yn cyhoeddi blaenraglenni gwaith ar gyfer y cyngor a phaneli craffu. Mae strwythur craffu'r cyngor yn cynnwys pwyllgor ffurfiol er craffu rhaglenni, paneli perfformiad, paneli ymchwilio dros gyfnod penodol, a chyfle i aelodau graffu ar bynciau a meysydd gwaith sy'n cyfateb i'w profiad a'u diddordebau.

7.3. Ym maes gwasanaethau cymdeithasol mae dau banel craffu ar hyn o bryd, sef perfformiad gwasanaethau plentyn a theulu a phanel thrawsffurfio gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, sy'n perthyn i raglen trawsffurfio gwasanaethau oedolion a'r gwaith o baratoi at y Ddeddf. Mae'r panel craffu yn cwrdd er mwyn cytuno ar raglen waith ac mae'r cadeirydd yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r aelodau cabinet perthnasol. Mae tri ohonynt ar hyn o bryd sydd â phortffolio sy'n perthyn i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Datblygwyd dull o wneud

penderfyniadau a pholisi sy'n cael ei arwain yn fwy gan aelodau, sy'n ei wneud yn ofynnol i swyddogion roi tystiolaeth glir i gyfiawnhau newidiadau mewn cyfeiriad.

7.4. Mynychodd AGGCC nifer o gyfarfodydd paneli perfformiad yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant. Mae gwybodaeth well ar gael ynghylch gweithgarwch craffu drwy gyhoeddi "gohebiaeth craffu" sydd â mynediad at adroddiadau diweddar a chanfyddiadau paneli ymchwil. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol hefyd er mwyn gwella mynediad at y gweithgarwch hwn ac i dystio i'r gwaith a wnaed.

7.5. Mae gan y cyngor drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer pennu'r gyllideb a chynllunio gwariant, er mwyn cyflawni'r cynllun ariannol tymor canolig. Mae'r cyngor wedi gweithredu strategaeth cyllideb tair blynedd o hyd, i gwrdd â thargedau a gofynion arbedion ariannol. Defnyddir dulliau ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau'r angen i gamu i fyny i ddarpariaeth ffurfiol gan wasanaethau cymdeithasol, ac i gynyddu'r camau i lawr i gymorth llai dwys yn y trydydd sector. Mae aelodau etholedig yn chwarae rhan lawn ac yn gefnogol i'r strategaethau sydd ar waith i greu arbedion tymor hirach. Cryfhawyd y dull hwn gyda thanwariant o £3 miliwn yng ngwasanaethau plant am yr ail flwyddyn, a wnaed drwy weithredu strategaeth ddiogel er lleihau'r nifer o blant sy’n derbyn gofal. Mae agwedd gyffelyb ar waith wrth drawsffurfio gofal cymdeithasol i oedolion.

7.6. Gwnaed gwaith i alluogi staff rheng flaen i fod yn wyliadwrus o gostau wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer oedolion a phlant. Mae dealltwriaeth well o gostau gofal ar draws ystod ehangach o wasanaethau, sy'n cyfrannu at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, ailfodelu gwasanaethau dydd drwy hybu cyfleoedd dydd a gwaith, a defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Adolygwyd y trefniadau comisiynu a cheir comisiynwyr penodedig ym mhob tîm gyda'r bwriad o wella canlyniadau i bobl ac i atal oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty. Mae arolygwyr AGGCC wedi nodi bod y berthynas weithio rhwng staff yn un agos. Gwelwyd hyn pan fu'n rhaid mynd i'r afael â pherfformiad darparwyr mewn modd amserol ac effeithiol. Rheolir y protocol o uwchraddio cwynion yn effeithiol gan y cyngor mewn cydweithrediad â phartneriaid iechyd ac AGGCC. Mae'r cyngor yn cydnabod yr her o gefnogi'r farchnad darparwyr i gyflenwi gwasanaethau effeithiol, effeithlon, o ansawdd da. Mae'r ymwneud â'r sector darparwyr yn dda, ac mae datganiad ar sefyllfa'r farchnad wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn ei gyhoeddi'n hwyrach eleni.

7.7. Bu'r cyngor yn effeithiol wrth recriwtio a chadw staff cymwys a phrofiadol, ac ni ddefnyddir staff asiantaeth ar hyn o bryd. Mae gan y cyngor grŵp datblygu gweithlu gofal cymdeithasol ar waith, sy'n edrych ar recriwtio,

sefydlu, cefnogi, datblygu a chadw'r bobl iawn er mwyn mynd i'r afael â heriau strategol a gweithredol y cyngor. Mae yna ymrwymiad i sicrhau bod yr holl staff yn cael cyfle i gael hyfforddiant a fydd yn cyfrannu at safonau arferion gorau. Hefyd, mae gan y cyngor strategaeth dysgu a datblygu ar waith ar gyfer cynghorwyr.

7.8. Mae *Signs of Safety* a dull o gynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, a fabwysiadwyd ledled y timau plant, yn mynd i gael ei gyflwyno wrth reoli gofal i oedolion. Bydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio yn gyntaf ar gyfer cynadledda grŵp i deuluoedd oedolion. Caiff digwyddiadau ymgysylltu staff eu trefnu ledled y timau oedolion a phlant i rannu beth a gyflawnwyd ac i ddathlu llwyddiannau. Y prif ffocws dros y flwyddyn ddiwethaf fu paratoi'r cyngor ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae sesiynau goruchwylio ac arfarnu ar waith.

7.9. Mae'r cyngor yn gweithio ar gynllun gweithredu yn unol â disgwyliadau'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau Cymraeg, Mwy Na Geiriau. Mae dros 19% o boblogaeth Abertawe yn defnyddio'r Gymraeg ac mae ymwybyddiaeth o'r angen i roi 'cynnig gweithredol' i bobl sydd eisiau derbyn ymateb yn Gymraeg.

**Meysydd o gynnydd**

- Trefniadau craffu sy'n effeithiol ac wedi'u rheoli'n dda.

**Meysydd i'w gwella**

- Sicrhau bod arweinyddiaeth, rheolaeth a chapasiti'r gweithlu yn barod ar gyfer cynnal y cynnydd a wnaed wrth ailffurfio a datblygu gwasanaethau cynaliadwy.

- Gweithredu dull o weithio sy'n seiliedig ar ddatrysiadau ar draws pob tîm.
- Gorffen yr adolygiad o wasanaethau dydd anableddau dysgu ac i ddatblygu model cynaliadwy o wasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth a dewisiadau.

- Datblygu'r ffordd o gynnig y Gymraeg i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd am ddefnyddio'u hawl i sgwrsio yn Gymraeg.